**RHYBUDD o benderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor ac yn rhithiol ar Zoom ddydd Mawrth, 29 Tachwedd 2022**

Cyhoeddir y rhybudd hwn am 5:00pm ddydd Gwener, 2 Rhagfyr, 2022. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ddydd Gwener, 9 Rhagfyr, 2022. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd cais dilys i'w galw i mewn) ddydd Llun, 12 Rhagfyr 2022.

**Presennol**: Cynghorwyr Llinos Medi (Cadeirydd), Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams, Alun W Mummery, Carwyn Jones ac Alun Roberts

**Hefyd yn bresennol**: Cynghorwyr Geraint Bebb, Trefor Lloyd Hughes, MBE, Glyn Haynes, R. Llewelyn Jones, Jackie Lewis, Ken Taylor

**Ymddiheuriadau**: Cynghorwyr Robin Williams, Gary Pritchard a Nicola Roberts

(10:00 y.b. - 11:55 y.b.)

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 Cofnodion**<br>Amherthnasol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau fod cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 25 Hydref 2022 yn gywir.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Amherthnasol** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Amherthnasol** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br>Adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro) |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi'i diweddaru am y cyfnod Rhagfyr, 2022 i** |

| | |
|---|---|
| | **Orffennaf, 2023 gyda'r newidiadau a amlinellwyd yn y cyfarfod.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Adroddiad Monitro'r Cerdyn Sgorio – Chwarter 2 (2022/23)**<br>Adroddiad gan Bennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd derbyn yr adroddiad monitro Cerdyn Sgorio ar gyfer Ch2 2022/23 ynghyd â'r mesur lliniaru a'i amlinellwyd.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Canfod meysydd o fewn y Cyngor sy'n tanberfformio.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Adolygiad Rheoli Trysorlys Blynyddol ar gyfer 2021/22**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br><br>• **Nodi y bydd y ffigyrau alldro yn yr adroddiad yn parhau yn rai dros dro** |

| | |
|---|---|
| | hyd nes bod yr archwiliad o Ddatganiad Cyfrifon 2021/22 wedi'i gwblhau a'i gymeradwyo; adroddir fel bo'n briodol ar unrhyw addasiadau sylweddol i'r ffigurau a gynhwysir yn yr adroddiad.<br>• Nodi dangosyddion darbodus a thrysorlys dros dro 2021/22 yn yr adroddiad.<br>• Anfon yr Adroddiad Adolygu Rheoli Trysorlys Blynyddol ar gyfer 2021/22 ymlaen i'r Cyngor Llawn heb unrhyw sylwadau pellach. |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cydymffurfio â rheoliadau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a Chynllun Dirprwyo Rheolaeth Trysorlys y Cyngor** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol.Mae adroddiad yr Adolygiad Rheoli Trysorlys Blynyddol yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor Llawn** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 Monitro'r Gyllideb Refeniw - Chwarter 2, 2022/23**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd–**<br>• **Nodi'r sefyllfa a nodir yn Atodiadau A a B mewn perthynas â pherfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r alldro disgwyliedig ar gyfer 2022/23.**<br>• **Nodi'r crynodeb o'r cyllidebau wrth gefn ar gyfer 2022/23 fel y manylir yn Atodiad C.**<br>• **Nodi monitro costau asiantaeth ac ymgynghori ar gyfer 2022/23 yn** |

| | |
|---|---|
| | **Atodiadau CH a D.**<br>• **Cymeradwyo trosglwyddo'r tanwariant o £100k ar gyfer cynyddu band eang mewn ysgolion i gronfa wrth gefn a glustnodwyd i ariannu'r gwelliannau band eang yn 2023/24 sydd wedi'u gohirio oherwydd cwblhau prosesau caffael priodol.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Monitro perfformiad Cyllideb Refeniw 2022/23** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8 Monitro'r Gyllideb Gyfalaf - Chwarter 2, 2022/23**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br>• **Nodi cynnydd gwariant a derbyniadau yn erbyn cyllideb gyfalaf 2022/23 yn Chwarter 2.**<br>• **Cymeradwyo'r cynnydd yn y gyllideb ar gyfer Melin Llynnon yn unol ag adran 4.2 o'r adroddiad.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Monitro perfformiad Cyllideb Gyfalaf 2022/23** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| | |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **9 Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai Chwarter 2, 2022/23**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br><br>• **Nodi'r sefyllfa a nodwyd mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer Chwarter 2 2022/23.**<br>• **Yr alldro a ragwelir ar gyfer 2022/23.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Monitro perfformiad y Cyfrif Refeniw Tai 2022/23** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **10 Sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer 2023/24**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br><br>• **Nodi cyfrifiad Sylfaen y Dreth Gyngor gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 - bydd hwn yn cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru wrth gyfrifo'r Grant Cynnal Refeniw i Gyngor Sir Ynys Môn ar gyfer 2023/24, sef 31,272.36 (Rhan E6 o Atodiad A i'r adroddiad).**<br>• **Cymeradwyo’r cyfrifiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a’r Swyddog Adran 151 i bwrpas gosod** |

| | |
|---|---|
| | **Sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer yr ardal gyfan a rhannau o'r ardal am y flwyddyn 2023/24 (Rhan E5 o Atodiad A o'r adroddiad)**<br>**• Bod, yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth y Cyngor) (Cymru) 1995 (OS 19956/2561) fel y'i diwygiwyd gan OS1999/2935 a'r Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth y Cyngor) a Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthiadau Rhagnodedig o Anheddau) (Cymru) (Diwygiwyd) 2004, a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth y Cyngor) (Cymru) (Diwygiwyd) 2016, y symiau a gyfrifir gan Gyngor Sir Ynys Môn fel ei dreth sylfaen ar gyfer y flwyddyn 2023/24 fydd 32,819.56 ac ar gyfer y rhannau o'r ardal fel y'u rhestrir yn y tabl o dan argymhelliad 3 o'r adroddiad.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Galluogi'r Cyngor Llawn i osod ei ofyniad Treth Cyngor i gwrdd â'i gyllideb gymeradwy ar gyfer 2023/24** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **11 Y Polisi Gosod ar gyfer Tai Cymdeithasol**<br>Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Tai |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd -**<br>• **Cymeradwyo newid rhannol dros dro yn y Polisi Gosod Cyffredin ar gyfer tai mewn ymateb i'r cynnydd yn nifer yr unigolion sy'n cyflwyno'n ddigartref sydd wedi'u lleoli neu mewn perygl o gael eu gosod mewn llety brys/dros dro.**<br>• **Bod dyraniadau a wneir yn ystod y** |

| | |
|---|---|
| | **cyfnod hwn ar gyfer aelwydydd digartref yn cael eu cymeradwyo gan y Rheolwr Tîm Opsiynau Tai gan na fyddai'r gosodiadau hyn yn cadw at y Polisi Gosod Cyffredin.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cymeradwyo newid dros dro i'r Polisi Gosod Cyffredin ar gyfer Tai** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **12 Grant Cyfleusterau i'r Anabl – Newid mewn Polisi**<br>Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Tai |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cymeradwyo dileu'r prawf modd ariannol ar gyfer gwaith bach a chanolig hyd at £10,000 o'r broses ymgeisio am Grant Cyfleusterau i'r Anabl.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cymeradwyo newid i'r Polisi Grant Cyfleusterau i'r Anabl** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |